# tafod elái

HYDREF 2015

Rhif 301

Pris 80c


## Colled i'r Dre

Caewyd drysau Marks & Spencer, Pontypridd am y tro olaf ddydd Sadwrn, Medi 26ain. Er ymdrech fawr gan drigolion y dre i gadw'r siop ar agor nid oedd modd perswadio'r cwmni. Mae'r stryd fawr yn mynd yn llai deniadol i siopwyr yn fisol. Pwy fydd y nesa'?

## Ysgol Gyfun Garth Olwg

**Ffarwelio ag Aelodau o Staff a Chroesawu Prifathro Newydd**

Mae pennod arall wedi dod i ben ar gyfer rhai o'n staff sydd wedi ein gadael dros yr Haf a dod i ddiwedd y daith o ran gweithio yn Ysgol Gyfun Garth Olwg. Mae Mr Bedwyr Harries, Mr Gruff Roberts, Mrs Gwenllian Rhys Roberts a Miss Jessica Williams yn ymgymryd â swyddi newydd ym mis Medi a Mr Gary Jenkins, Mrs Carole Bryan-Jones, Mrs Jacky Griffiths, Mr Ellis Phillips, Mr Elfed Charles ac wrth gwrs ein Pennaeth, Mrs Angela Williams yn ymddeol ar ôl blynyddoedd maith o weithio yn y byd addysg ac yn symud ymlaen at gyfnod a fydd yn caniatâu iddynt ddilyn llwybrau eraill gan obeithio hefyd rhoi cyfle i ymlacio! Mae pob un wedi ymroi yn llwyr i'r gwaith, i'r staff ac yn bwysicach byth i'r myfyrwyr.

Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i bob un ohonynt am y gefnogaeth, arweiniad a chyfraniad enfawr a diflino y maent

wedi gwneud i'r gymuned ddysgu hon gan ddatblygu'r disgyblion a staff i gyd fel dysgwyr gydol oes.

Edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf o dan arweiniad ein prifathro newydd, Mr Trystan Edwards gan barhau i anelu i gwrdd gyda'r safonau uchel mae pob un ohonynt wedi'u gosod. Dymuniadau gorau i bob un.

## Mwynhau Gwledd o Ganu

Dechrau dyrchafol i'n tymor newydd! Daeth criw da o ferched ynghyd i gyfarfod agoriadol Merched yWawr Cangen y Garth yn festri Bethlehem, Gwaelod ddiwedd mis Medi lle cawsom gyngerdd gwefreiddiol gan Gôr Merched Canna dan arweiniad medrus - afieithus Delyth Medi! Saith o ddarnau cyferbyniol, hudolus, dyrchafol eu sain o'r Benedictus i Anfonaf Angel. Gwerthwyd nifer o CDs ar y noson gan mor hyfryd y sain - mae 'na rai ar ôl - gellwch brynu yn ein cyfarfod nesa ym mis Hydref! Ymunwch a ni ar yr 21ain o Hydref - eto yn festri Bethlehem i ddysgu am Feddwlgarwch. Diolch o galon i'r Merched am gychwyn bendigedig!

**Rhys Britton Pencampwr Cymru**

Dros gwyliau'r haf, bu Rhys Britton, Blwyddyn 12 yn cystadlu ym mhencampwriaeth trac Prydain yn y veledrome ym Manceinion. Ymgeisiodd mewn 4 cystadleuaeth ac enillodd fedalau aur mewn dwy o'r cystadlaethau a medalau arian yn y ddwy arall. Yn ogystal â hyn, yn y ras dilyn unigol, gosododd Rhys record Brydeinig newydd. Wythnos yn ddiweddarach aeth i Wlad Belg gyda Beicio Cymru i rasio mewn 4 'Kermesse' sef rasys lleol Belgaidd a llwyddodd i ennill 3 a dod yn ail yn y llall.

Ar yr 20fed o Fedi, cystadlodd Rhys ym mhencampwriaeth Criterium Cymru ym Mhorthcawl. Bu'n llwyddiannus iawn a bellach Rhys yw pencampwr Cymru.

Geraint Hughes yn annerch y dathliadau yn Crecy.
(Tudalen 9)


Prynwch eich copi o
*Tafod Elái*
£8 am y flwyddyn
Oddi wrth eich dosbarthwyr lleol neu
029 20890040

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**01443 407570**
**www.menteriaith.cymru**

**Diwrnod Shwmae Sumae 2015**
Shwmae a Sumae! Mae'n fis Medi unwaith eto a dyma ni yn dechrau paratoi ar gyfer Diwrnod Shwmae Sumae 2015.

Roedd Diwrnod Shwmae Sumae 2014 yn llwyddiant ysgubol, gyda dathliadau yn digwydd ledled Cymru a thu hwnt.

Erbyn hyn mae gan ddiwrnod Shwmae Sumae momentwm ei hun ac mae'n lledaenu ar hyd y wlad drwy amrywiol weithgareddau mewn ysgolion, gweithleoedd, unigolion a chymdeithasau, fel ton Mecsicanaidd.

Cyfle arbennig i drefnu rhywbeth sydyn fydd yn sbarduno pawb i ddefnyddio eu Cymraeg a chael tipyn o hwyl.

Eleni, byddwn yn trefnu te prynhawn yn nhafarn y Lion, Treorci o 2pm - 5.30pm. / £5 y person gydag adloniant cerddorol Cymraeg. Croeso mawr i bawb!

Yn ystod y diwrnod byddwn hefyd yn crwydro strydoedd y sir yn ffilmio pobl leol yn defnyddio bach o Gymraeg!

Bydd rhai o fforymau ieuenctid y Fenter yn tynnu sylw at y dydd trwy werthu cacennau Diwrnod Shwmae yn yr ysgol yn ystod amser egwyl.

Wnawn ni ddim anghofio am blant ein clybiau chwarae. Bydd pob un sy'n mynychu'r clybiau ar ôl ysgol ar y diwrnod yn cael anrheg arbennig i fynd adref!

Am fwy o fanylion neu i sôn am eich digwyddiad ewch i dudalen Facebook Diwrnod Shwmae Sumae neu dilynwch y trefniadau ar Trydar/Twitter.

**Rygbi yn y parc**
Fel rhan o ddathliadau Cwpan Rygbi'r Byd 2015 mae'r Fenter Iaith a'r Urdd yn trefnu prynhawn arbennig o rygbi ym mharc Ynysangharad Pontypridd ddydd Sadwrn 10fed o Hydref. (Ar bwys y cyrtiau tenis) Addas i'r teulu cyfan - gyda sgiliau rygbi, Rygbi Tots, Helfa drysor, lliwio a mwy.
2pm – 4pm yn y parc a'r opsiwn wedyn o wylio gêm Cymru v Awstralia yng Nghlwb y Bont. Dewch yn llu!

**Noson Cacen Clonc a Chan**
Trefnwyd noson lwyddiannus yng nghanolfan Efail Isaf yn ddiweddar gyda chacen, cloncian a chanu! Bwriad y noson oedd cwrdd â'r gymuned er mwyn meddwl am ffyrdd newydd a chreadigol o ddefnyddio'r ganolfan hyfryd yma.

Hoffwn ddiolch i bawb wnaeth fynychu am eich syniadau arbennig. Gobeithio gallwn weithredu ar rhain yn y dyfodol agos.

Diolch yn fawr hefyd i Barti'r Efail, a Chôr yr Einion am berfformio ar y noson ac i Colin Williams am lywyddu.

**Fforymau Ieuenctid**
Mae cyfarfodydd fforymau ieuenctid yn dechrau mis yma yn agored i ddisgyblion o flwyddyn 7 hyd at blwyddyn 6. Os oes diddordeb gyda chi ymuno â'r fforymau plîs cysylltwch â Rian yn y swyddfa rian@menteriaith.cymru neu 07500878288

Aelodau Parti'r Efail sydd, gyda llaw, yn dathlu 20 mlynedd o fodolaeth eleni, yn troi i fyd cynnal Partis go iawn! Gan mai eu harweinydd, Menna Thomas, oedd Llywydd Cymdeithas Cerdd Dant Cymru am eleni, hi oedd yn cael dewis lleoliad cyfarfod blynyddol y sefydliad hwnnw, ac fe ddaethon nhw i'r Ganolfan, Efail Isaf.

**Cynlluniau Chwarae**
Eleni, cynhelir cynlluniau yn y lleoliadau yma: Canolfan Gydol Oes Garth Olwg, Ysgol Gymraeg Aberdâr ac Ysgol Gynradd Bodringallt. I archebu lle plîs cysylltwch â'r swyddfa 01443407570 neu carco@menteriaith.cymru

**Clybiau Carco Cwm Cynon**
Dros y misoedd diwethaf, mae plant sy'n mynychu Clwb Carco Aberdâr wedi bod yn tyfu llawer o lysiau yn eu gardd yn Ysgol Gymraeg Aberdâr, yn cynnwys tatws, pys a radish. Mae'r plant wedi blasu nhw yn yr ysgol a mynd â'r cynnyrch adref i'w rhieni.

Hefyd, mynychodd dros 25 o blant yn ddyddiol y Cynllun Chwarae Haf yn yr ysgol, gyda chyfle i wneud ffrindiau newydd, gwneud chwaraeon, celf a chrefft neu ddawnsio disgo!

**Cynllun Chwarae Haf Garth Olwg**
Yn ystod gwyliau Haf, aeth 30 o blant o

Gynllun Chwarae Garth Olwg ar daith i Amgueddfa Sain Ffagan a Ffair Ynys y Barri. Cawsant amser da iawn yn edrych o gwmpas yr hen adeiladau a siopau yn yr Amgueddfa yn y bore, cyn ymweld â'r Ffair a chwarae gemau ar y traeth yn y prynhawn.

**Cynllun Haf Bodringallt**
Yn ystod yr Haf, cynhaliwyd Cynllun Haf llwyddiannus iawn yn Ysgol Gymraeg Bodringallt. Dros bedair wythnos y cynllun roedd nifer o weithgareddau megis chwaraeon, peintio gwyneb a cholur, gemau bwrdd, celf & chrefft.

Cynhelir wythnos arall o weithgareddau dros hanner tymor yr Hydref yn rhad ac am ddim.

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
Betsi Griffiths

**Cwilt i'r Ganolfan**

Gwahoddwyd y Dosbarth cwiltio i wneud cwilt ar gyfer y Ganolfan Gymunedol. Cynlluniwyd y cwilt gan y dosbarth a bu'r merched wrthi yn cwiltio bob prynhawn dydd Iau. Dangosir nodweddion y pentref a'i hanes ar y cwilt ac mae'r gwaith cwiltio i gyd wedi ei wneud â llaw ar y fframyn traddodiadol. O'r diwedd roedd y cwilt wedi ei orffen yn barod i'w gyflwyno i'r Ganolfan brynhawn ddydd Mercher, Medi 9ed. Derbyniwyd y cwilt ar ran y Ganolfan gan Mrs Janice Gregory, Aelod y Cynulliad.

Llongyfarchiadau wir. Mae'r merched yn cwiltio â llaw yn y dull traddodiadol ar fframau. Mae'n debyg nad oes llawer ar ôl sy'n dal i weithio ar y fframau traddodiadol. Daliwch ati i gadw'r hen ddraddodiad yn fyw.

Mae'r ganolfan Gymunedol, sydd wedi ei hadeiladu ar draws y ffordd i ysgol Hendreforgan, yn ugain oed y flwyddyn nesaf. Adeiladwyd fel rhan o gynllun Cymunedau'n Gyntaf ac mae rhyw beth yn mynd ymlaen bob dydd o'r wythnos o 9 o'r gloch y bore tan 9 o'r gloch y nos.

## Pencampwyr Rygbi Cyffwrdd Iau Ewrop

Y tîm cymysg buddugol

Rhagor ar dudalen 7

Rhys Lynch, Tomos Angell, Steffan Prydderch a Daniel Roberts.

S4C

GWNA DY APWYNTIAD YN YSBYTY GWAETHA'R BYD!

YSBYTY HOSPITAL
5.00
BOB DYDD IAU
s4c.cymru/stwnsh

Does byth eiliad dawel yn Ysbyty Hospital a bydd digon o hwyl a chwerthin yn y gyfres newydd sbon. Wyt ti'n gallu cwblhau'r chwilair cyn i'r criw ddychwelyd ar 8 Hydref?

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Th | E | M | N | A | T | U | D | U | R | W | G |
| O | R | O | H | L | A | T | J | O | G | W | B |
| W | C | Dd | Th | U | T | A | S | E | W | O | W |
| A | L | I | I | Ll | W | B | A | I | E | I | R |
| I | E | O | D | P | S | L | L | U | L | D | Dd |
| N | F | N | U | L | R | E | Y | G | Y | A | Y |
| F | Y | S | J | O | S | D | Ch | N | Y | R | S |
| A | D | O | T | I | Ch | W | Th | F | D | L | B |
| T | Ch | C | N | S | L | G | I | I | P | E | Y |
| S | O | E | D | A | I | L | N | Rh | O | N | T |
| D | L | G | S | L | H | N | N | E | E | W | Y |
| G | W | A | Ll | G | O | R | A | E | N | I | P |

~~ysbyty~~
Glenise
Tudur
radio
DJ Sal
gwely
Lois
moddion
doctor
Gwallgo
Owain
nyrs
Anni
clefyd
salwch
Judith
Poen
Tabled

Steffan Moi mab Sara ac Aled Davies gyda'i frawd mawr Elis Morgan (Tud 11)

Fflur Arwyn Jones merch Kate ac Arwyn Jones, a chwaer fach i Hedd Tryfan. (Tud 7)

Bore Coffi Mawr Macmillan Pontyclun (Tudalen 9)

Pegi Alys merch Lowri Glyn a Chris Warlow (Tud 11)

Llinos Honeybun yn derbyn Gwobr Aur Dug Caeredin (Tud 7)

Priodas Cerian Rowlands, Tonteg, a Matthew Phillips (Tudalen 5)

Alys Mair merch Llinos ac Ian Davies (Tudalen 10)

Ffarwelio â'r ysgol fach - Prom Plant Creigiau ddiwedd tymor yr haf



Ela Fflur merch Aled a Becky Rees gyda'i brawd mawr Carwyn (Tudalen 9)

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i deulu John James, Heol y Ffynnon a fu farw ar y 6ed o Awst yn gant oed. Yn enedigol o Glydach Cwmtawe fe dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn yr Efail Isaf ar ôl priodi Beti Chubb, un o ferched y pentref. Cynhaliwyd ei angladd yn y Tabernacl, ddydd Mercher, Awst 26ain a daeth nifer fawr o'r teulu, ffrindiau a'r pentrefwyr ynghyd i ffarwelio â chymeriad poblogaidd. Roedd y gwasanaeth o dan ofal y Parchedig Eirian Rees a darllenwyd rhan o'r ysgrythur gan Ann Dixey, ei gymdoges. Talwyd teyrnged ffraeth a theimladwy iddo gan ei ferch yng nghyfraith, Glynis James a fu mor ofalus o John yn ystod ei flynyddoedd olaf.

**Ymddeol**
Dymunwn yn dda i Martin West, Nant y Felin ar ei ymddeoliad ddiwedd mis Awst. Bydd cyfle i Liz a chwithau ymlacio a theithio'r byd. Pob hwyl i chi eich dau.

**Graddio**
Llongyfarchiadau gwresog i Rhodri, mab Alun a Heulwen Rees, Heol Iscoed a dderbyniodd radd mewn Mathemateg o Goleg y Brifysgol Aberystwyth. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**Newid Byd**
Dymunwn yn dda i'r myfyrwyr sydd yn newid byd gan ddechrau ar gwrs newydd yn eu bywydau. Mae Trystan Gruffydd, Nantcelyn newydd adael i astudio ym Mhrifysgol Birmingham, a Gwenno Rees, Penywaun, yn cymhwyso i fod yn athrawes yn y Coleg yn Abertawe. Pob hwyl i chi eich dau.

**Chwaraewyr o Fri**
Dwi'n siŵr y bydd dyfodol y gêm bêl-droed a'r rygbi yn saff yn nwylo tri o fechgyn ifanc Efail Isaf. Mae Gethin Rosie-Jones, Heol y Ffynnon wedi ei ddewis yn safle'r gôl-geidwad i dîm dan 11 oed pêl-droed Rhondda Cynon Taf. Rygbi yw cariad cyntaf y ddau frawd, Ioan a Steffan Emanuel, Heol y Parc, ac mae'r ddau wedi eu dewis i gynrychioli Tîm Rygbi Ysgolion Cynradd Rhondda Cynon Taf. Mae'r tri yn ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau. Da iawn chi, eich tri.

**Pen-blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Gwion Rees, Penywaun ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Medi.

**Ffair y Pentref**
Roedd prysurdeb mawr yn ardal y Parc a'r Neuadd brynhawn Sadwrn y pumed o Fedi. Roedd yn ddiwrnod Ffair y Pentref. Daeth nifer fawr o bentrefwyr i gefnogi'r fenter ac roedd pob math o stondinau a gweithgareddau wedi eu trefnu i ddifyrru'r plant a'u rhieni.

**Cacen, clonc a chân**
Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghanolfan y Tabernacl, nos Wener, Medi 11eg i drafod pa weithgareddau yr hoffai'r pentrefwyr weld yn cael eu cynnal yn y Ganolfan. Colin Williams lywyddodd y noson ac fe anogodd Einir Siôn, Prif Swyddog Menter Rhondda Cynon Taf, bawb i fynegi barn a chynnig syniadau. Cafwyd eitemau gan Barti'r Efail a Chôr yr Einion. Paratowyd paned a chacen i hwyluso'r drafodaeth.

**Cydymdeimlo**
Bu farw un o feibion enwocaf y pentref yn ystod mis Awst. Roedd Geraint Stanley Jones yn fab i gyn-weinidog y Tabernacl ac fe gafodd yrfa ddisglair yn y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ac yn ddiweddarach gyda S4C. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i'w weddw a'r teulu.

**Cyhoeddi Llyfr Arall**
Llongyfarchiadau gwresog i David, mab hynaf Huw a Carol John, Heol Iscoed ar gyhoeddi llyfr arall "The girl with seven names". Hanes merch ifanc o'r enw Hyeonseo Lee a gafodd ei chyflyru a'i dal o dan ddylanwad creulon y Comiwnyddion yng Ngogledd Corea yw'r llyfr. Yn ddwy ar bymtheg oed mi wnaeth ffoi o'i chaethiwed i Tsieina, ac erbyn hyn hi yw un o'r ymgyrchwyr mwyaf grymus sy'n cefnogi hawliau dynol a ffoaduriaid drwy'r byd i gyd.

Cyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Llanhari yw David. Tra'n ysgrifennu'r llyfr bu'n byw am gyfnod yn Seoul yn Ne Corea.

**Y TABERNACL**
**Atgyweirio'r Capel**
Bydd yn rhaid i gynulleidfa'r Tabernacl fod yn amyneddgar iawn am gyfnod tan y Nadolig gan fod gwaith cynnal a chadw sylweddol yn digwydd i adeilad y capel. Bydd y gynulleidfa'n addoli yn Neuadd y Pentref o ddechrau mis Hydref tan ddiwedd y flwyddyn. Mae'r aelodau'n ddyledus i bawb fu ynghlwm wrth y gwaith o drefnu a phwyllgora yn enwedig i Helen Middleton ac Emlyn Penny Jones.

**Dymuniadau Gorau**
Dymuwn yn dda i Elgan Davies, Llanilltud Faerdref sydd wedi treulio misoedd lawer yn yr ysbyty yn ystod y flwyddyn.

**Merched y Tabernacl**
Castell Caerffili oedd cyrchfan aelodau'r grŵp fore Mawrth, Medi 15fed. Castell Caerffili yw'r mwyaf yng Nghymru ac roedd yn edrych ar ei orau yn yr heulwen y bore Mawrth hwnnw. Mi wnaeth tywysydd ein cyfarfod rhoi hanes y castell i ni a thynnodd ein sylw at y "tŵr cam" sydd yn fwy ar oleddf na thŵr cam Pisa. Crwydrasom o amgylch yr adeilad gan synnu at ei faint a rhyfeddu at gamp yr adeiladwyr. Rhaid oedd gwerthfawrogi'r ymdrech i gyfleu'r hanes mewn ffilm a dulliau modern eraill. Diolch i Judith am drefnu'r ymweliad ac am ein cyfeirio i gaffi arbennig gerllaw. Bydd ein cyfarfod nesaf dydd Mawrth, Hydref 13eg yng Nghanolfan y Tabernacl pan fyddwn yn croesawu Luned Davies-Scott i'n plith i rannu ei dawn a'i sgiliau coginio â ni.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Hydref**
Hydref 4ydd Aelodau Llantrisant, Meisgyn a Thonyrefail
Hydref 11eg Gwasanaeth Diolchgarwch
Hydref 18fed Y Parchedig Wyn Richards
Hydref 25ain y Parchedig Gethin Rhys

# TONTEG

Gohebydd Lleol:
Gillian Williams

**Priodas**
Dymuniadau gorau i Cerian Rowlands a Matthew Phillips ar eu priodas diweddar. Cynhaliiwyd y gwasanaeth yn eglwys Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys ar Orffennaf y 25ain. Merch hyna' Janet a David Rowlands, Llys Coed Derw yw Cerian ac mae Matthew yn dod o Drelales. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd lle mae'r ddau yn gweithio, Matthew fel athro a Cerian fel cynllunydd trafnidiaeth. Llun tudalen 4.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Carys ac Elwyn Davies, y Dell ar ddod yn nain a thadcu unwaith eto. Ganed Steffan Moi, yn pwyso 8 pwys 12 owns, ar Awst y 27ain i Aled a Sara, brawd bach i Elis sy wrth ei fodd. Dymuniadau gore iddyn nhw.

Dymuniadau gore hefyd i James Taylor a Natasha ar enedigaeth eu mab cyntaf .. Ollie James, ddechrau mis Awst, ŵyr cyntaf i Allan a Diane Taylor, y Dell. Tŷ newydd! Babi newydd! medden nhw, ac yn wir fe symudodd James a Natasha i dy newydd ym Mhentre'r Eglwys rhyw fis cyn i Ollie gyrraedd.

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon** (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**
**Mis Hydref 2015:**
4 Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
11 Y Parchg. Robin Samuel
18 Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
25 Sul Adferiad - Wynford Ellis Owen

**Mis Tachwedd 2015:**
1 Dr. Hefin Jones
8 Y Parchedig Dafydd Owen - Oedfa Gymun
15 Oedfa dan ofal Alwyn Harding Jones
22 Y Parchedig Glyn Tudwal Jones
29 Y Parchedig Hywel Wyn Richards

ooooOOOOoooo

Mae 'na ambell enw lle wedi ei serio yn y cof am wahanol resymau, weithiau gall fod yn ddiarwybod i ni, dro arall gall fod yn hollol amlwg paham.

Wn i ddim i pa begwn y perthyn y lle arbennig yma y bum ar ymweliad ag o yn ddiweddar, sef Guernica (Gernika yn y Fasgeg) [poblogaeth o rhyw 17,000], yng ngwlad y Basg yng ngogledd Sbaen, ond mynnu fy hudo i yno a wnaeth.

"Ond tydi pawb wedi clywed am Guernica", medda chi?

Y llun, efallai, ond beth am y lle?

Ia, darlun o waith Picasso, a baentiwyd ar gyfer Arddangosfa Ryngwladol Paris yn 1937 ydi'r llun (o faint 11 troedfedd wrth 25.6 troedfedd) ac mae hwnnw bellach yn hongian yn y Museo Nacional Centro de Arte Reina Sofia ym Madrid.

Darlun ydyw sy'n cofnodi bomio Guernica, (am dros dair awr), ar y 26ain o Ebrill 1937 gan Leng Condor Luftwaffe Natsiaid yr Almaen,

Cefnogi Fransisco Franco i gael gwared ar lywodraeth y Basgiaid oedd y bwriad. Darlun du a gwyn ydyw yn cofnodi erchyllterau rhyfel cartref Sbaen, ond sydd erbyn hyn yn cael ei gydnabod fel gwrthrych gwrth-ryfel ac yn symbol o heddwch yn yr 20fed ganrif.

Lladdwyd bron i 1700 o'r trigolion yn ôl un amcangyfrif (er i'r Almaen yn ddiweddarach honni mai tua 300 a laddwyd). Difrodwyd yn llwyr tua 70% o adeiladau'r dref, a gwnaed difrod i o leiaf 20% arall, gan adael ychydig iawn o'r adeiladau gwreiddiol yn sefyll heddiw.

O'r ychydig adeiladau hynny, fe arbedwyd senedd rhanbarth Biscay, ac hefyd yn wyrthiol fe achubwyd Derwen Guernica.

Yn dilyn y bomio, a dyfodiad milwyr Franco i'r dref bu catrawd o wirfoddolwyr arfog yn amgylchynu'r dderwen i'w gwarchod rhag ei thorri, oherwydd ei phwysigrwydd fel symbol o genedlaetholdeb y Basgiaid.

Saif y senedd (a'r dderwen) ar fryncyn o fewn ffiniau'r dref, ac yma, yn dilyn traddodiad hynafol, y byddai'r Basgiaid, yn cynnal eu cyfarfodydd cymunedol, o dan frigau'r dderwen. Yma hyd at 1876 y lluniwyd deddfau Biscay, a byddai pob rhanbarth yn anfon dau gynrychiolydd i'r sesiynau.

Er bod gan pob rhanbarth gweinyddol eu coeden eu hunain, Derwen Guernica oedd yr un mwyaf pwysig o'r cwbl ohonynt.

Bu coeden yma ers 1512 (y gyntaf yn ei lle am 450 o flynyddoedd), a dyma'r dderwen a gynrychiolai hawl cynhenid y Basgiaid i'w hunaniaeth. Yn 2015 y plannwyd y goeden bresennol.

Yn 1987, i gofnodi 50 can mlynedd ers bomio'r dref, cynhaliwyd "Cyngres Rhagarweiniol Cymdeithas Dinasoedd Merthyredig y Byd" yn Guernica.

Mae copi mewn teils cerameg o "Guernica" Picasso wedi ei adeiladu yn y dref, yn llawn maint, ac mae tref Guernica ei hun heddiw yn cael ei chydnabod fel "dinas heddwch".

Mae Parque de los Pueblos de Europa (Parc y Cenhedloedd Ewropeaidd) ac Amgueddfa Heddwch yn y dref yn ogystal, yn cynrychioli yr hyn a gyfranodd Guernica i hanes y Basgiaid, sef democratiaeth, system gyfreithiol leol, a rhyddid, ac yn gydnabyddiaeth o'r hyn a gynrychiola heddiw, sef iawnderau dynol a heddwch.

Mae'r goeden a'i dail yn symbol gweladwy ar arfbais Biscay a gwlad y Basg, ac os edrychwch yn fanwl ar ddarlun Picasso fe'i gwelwch yno yn ogystal.

Ewch i Guernica i brofi yr hyn a brofais i yno - cewch groeso, ond cofiwch ddarllen awdl Hywel Griffiths "Gwe" a ennillodd iddo gadair genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2015 cyn mynd.

Yn ddiarwybod, ai derwen a Llyfr Heddwch Caerfyrddin a'm harweiniodd yno tybed?

ooooOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org

Rydym hefyd yn falch o'ch hysbysu ein bod wedi cofrestru Bethlehem.cymru ar gyfer ein gwefan. Bydd yn barod i'w defnyddio cyn hir! Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng nghyfarfod cyntaf ein tymor cawsom gwmni Owain Morris, sy'n aelod o staff Cwmni Tidal Lagoon Power; testun ei sgwrs oedd Morlyn Llanw Bae Abertawe. Cyn ymuno gyda'r cwmni yn 2013 bu Owain yn gweithio yn Ffrainc am gyfnod byr wedi iddo raddio mewn daearyddiaeth yn Aberystwyth. Cyn hynny bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bryntawe yn Abertawe ac Ysgol Gyfun Gymraeg Tre-gŵyr.

Dyma un o'r chwech menter ar draws Cymru a Lloegr sy ar y gweill gan y cwmni gyda golwg ar ddiwallu anghenion egni y dyfodol. Yn eironig, a ninnau'n cael golwg ar ddull gwyrdd o gyrraedd y nod, ar yr un diwrnod cyhoeddwyd y newyddion bod llywodraeth Llundain yn bwriadu mynd i gytundeb gyda chwmni yn Ffrainc ac yn Tseina i godi gorsaf bŵer niwclear ar yr Hafren.

Ar hyn o bryd mae'r cynlluniau yn Abertawe ar gyfnod cyffrous a phryderus o ran derbyn caniatad sawl adran yn y llywodraeth i fwrw ymlaen; eisoes cafwyd cytundeb rhannol. Os daw'r golau gwyrdd yn y tri mis nesaf, gellir dechrau'r gwaith yn y gobaith o'i orffen ymhen tair i bedair blynedd.

Beth bynnag yw barn dyn am y mentrau anferthol hyn rhaid cydnabod trylwyredd y paratoi a'r breuddwydio. Trawsnewidir Bae Abertawe, gyferbyn â'r brifysgol, pan godir argae mawr iawn ar ffurf cylch i ffurfio morlyn fydd yn gronfa derbyn a gollwng dŵr y môr yn ôl rhythm trai a llanw lleol. Bydd mudiant y dŵr yn peri i dyrbinau (o Dde Corea) gynhyrchu trydan ar raddfa fydd yn gyfraniad sylweddol iawn at allu'r Grid Cenedlaethol i sicrhau bod cartrefi a diwydiannau yn cael eu digoni. Cawsom gipolwg ar ddata ar bob agwedd o'r fenter gan gynnwys maintioli'r adeiladwaith a chyfleoedd hamdden pan fydd y cyfan yn barod at wasanaeth a defnydd.

Gellir cael syniad o'r bwriad trwy fynd at http:www.tidallagoonswanseabay.com neu http:www.tidallagoonswanseabay.com/h/the-project/film/107/

***Llinellau ffôn Cymraeg***

Mae llawer o wasanaethau yn darparu llinellau ffôn Cymraeg. Ewch i

**www.cymorth.com**

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

**Creigiau**
Mae'n fis o ddathliadau, llwyddiannau a newyddion da! Felly mwynhewch y darllen a chofiwch - beth am i chi rannu eich pytiau o lawenydd gyda ni - ddarllenwyr y golofn!

**Priodas Aur Enid a Brian**
Llongyfarchiadau gwresog i Brian ac Enid Davies, Beili Glas, Heol Pantygored, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Cynhaliwyd y briodas yn Eglwys y Triniti, Pontarddulais ar Awst 19, 1965 ac aeth y cwpwl ar eu mis mêl i Westy'r Porthminster yn St Ives, Cernyw.
Ymhlith y dathliadau eleni aeth Enid a Brian gyda'i merch, Kate a'i phartner Lee, a'r wyrion, George a Lilith, nôl i'r un gwesty ar yr un diwrnod.
Ym 1965 roedd y taliad am bopeth yn 19gini am yr wythnos. Erbyn nawr roch chi'n talu hynny am **un** stecen!
Mae Enid a Brian yn gwerthfawrogi eu hiechyd ac amynedd i barhau mor hir!!
Maent hefyd yn diolch i'r teulu a ffrindiau am eu cwmni dros y blynyddoedd. Ymlaen nawr at y Diemwnt! 'Cariad pur sy' fel y dur - yn para tra bo Enid a Brei'!

**Da iawn, disgyblion y 6ed!**
Llongyfarchiadau bawb ar eich canlyniadau ardderchog! Y gwaith caled wedi talu ar ei ganfed a chithau bellach ar eich ffordd i wneud mwy o waith yn eich colegau a'ch prifysgolion!
Josh Morgan - y Drindod- BA - Drama
Daniel Roberts - Caerfaddon - Addysg
Megan Dodson - Manceinion - Therapi Lleferydd
Aron Mon - Aberystwyth - Hanes a gwleidyddiaeth rhyngwladol - ac ysgoloriaeth! Arbennig!
Lewis Brunt - St Mary's - Add Gorff
Lowri Daniels - Bryste - Hanes
Elen John-Morris - Manceinion - Bio cemeg.
Pob dymuniad da i chwi oll - gweithiwch yn galed a chofiwch fwynhau! (diolch J.M.)

**Cymraes fach newydd!**
Croeso cynnes i Fflur Awen Jones! Cafodd Fflur Awen Jones ei geni ar y 3ydd o Fehefin yn ail blentyn i Kate ac Arwyn Jones, Creigiau ac yn chwaer fach i Hedd Tryfan. Llongyfarchiadau mawr! A diolch am y llun!

**Pencampwyr Rygbi Cyffwrdd Iau Ewrop!**
Tybed faint ohonoch ddarllenwyr oedd yn sylweddoli taw tîm Cymru yw

Brian ac Enid ar ddydd eu priodas

deiliaid y teitl Pencampwyr Rygbi Cyffwrdd Iau Ewrop? A bod llawer iawn o'r diolch am hynny i chwaraewyr arbennig iawn gafodd eu meithrin yma yn y Creigiau! Yn Nottingham ddiwedd mis Awst bu'r gemau tyngedfennol! Enillodd tîmau'r bechgyn, y merched a'r tîm cymysg! Yn y llun fe welwch (o'r chwith i'r dde) Rhys Lynch, Tomos Angell, Steffan Prydderch ( y Capten, sy' ddim yn byw yn Creigiau!) a Daniel Roberts. Mae'r tri yn gyn-ddisgyblion ysgol Gynradd Creigiau. Ym mis Medi dychwelodd Tomos a Rhys i'w blwyddyn ola yn chweched dosbarth YGG Plasmawr ac mae Daniel bellach ym Mhrifysgol Caerfaddon yn dilyn cwrs Addysg. Llongyfarchion bawb ar eich llwyddiant ysgubol! Tipyn o gamp! Tra'n llongyfarch y bechgyn gawn ni hefyd gofio am Manon Gruffydd - Pentyrch - YGG Plasmawr a Glantaf - oedd yn aelod o dîm buddugol y merched! Da iawn ti, Manon!
(diolch A.A.!)

**Jonathan - yn ôl ar ei feic!**
Mae yn dda deall bod Jonathan Honeybun yn ôl ar ei feic ar ôl cael triniaeth ar y galon nôl ym mis Mawrth eleni. Cafodd Jon *driple bypass* ddaeth fel tipyn o sioc ac yntau yn ŵr iach oedd yn arfer seiclo milltiroedd maith bob wythnos ac yn cadw'n arbennig o ffit. Ffaith brofodd yn fanteisiol iawn pan sylweddolodd Jonathan ddifrifoldeb ei gyflwr a dechrau ar ei driniaeth. Bellach yn holliach a nôl yn ymarfer hoffai Jonathan ddiolch i bawb roddodd gymorth a chefnogaeth iddo fe a'r teulu dros y misoedd diwethaf ynghŷd â'r

## Clwb y Dwrlyn

Cafwyd dechrau llawn hwyl i dymor newydd Clwb y Dwrlyn wrth i'r comediwr Daniel Glyn ddod draw i glwb rygbi Pentyrch i'n diddanu. Camu i'r bwlch ar y funud olaf a wnaeth Daniel yn sgil salwch Wali Tomos, Cmon Midffild. Ac fe wnaeth hynny yn ddeheuig gan beri i ni gyd rowlio chwerthin wrth iddo dynnu blewyn o drwyn pawb a phopeth, o ddisgyblion Ysgol Glantâf i gyfryngis.
Fe wibiodd awr heibio mewn chwinciad a da y dywedodd Gary Sam wrth ddiolch ar y diwedd mai'r hyn gafodd ei brofi yn ddiymwâd gan y perfformiad oedd ein parodrwydd fel Cymry i chwerthin am ben ein hunain. Arwydd o aeddfedrwydd cenedl.

doctoriaid a'r staff yn y feddygfa leol ac yn yr ysbyty. Da dy weld yn ôl yn mynd fel y gwynt! Dim gobaith dy ddal!

**Gwobr Aur i Llinos!**
Yn ddiweddar derbyniodd Llinos Honeybun Wobr Aur Dug Caeredin oddi wrth y Tywysog Edward ym Mhalas St. James, Llundain. Bydd Llinos yn cwblhau ei chwrs ym Mhrifysgol Caerfaddon yr haf nesa lle mae hi'n astudio Ffarmacoleg. Llongyfarchiadau mawr Llinos ar dy gamp! Person cytbwys iawn! (Llun tudalen 4)

**A mwy o newyddion hapus i'r Honeybuns!**
Tra ar ymweliad â Vancouver yr ha 'ma fe ddyweddiodd Emyr Honeybun - yr hen ramantydd - â'i gariad Hannah Hardy, sy'n enedigol o Vancouver! Llongyfarchiadau eich dau a phob hapusrwydd!

**Perfformiadau grymus ...**
... gan Martin Thomas a Siân Beca sy'n peri bod y ddrama welsom yn y Cwt Drama yn 'Steddfod Maldwyn a'r Gororau yn sefyll yn hir yn y cof. Llongyfarchiadau eich dau ar bortreadau dirdynnol o'r gŵr a'r wraig ifanc yn nrama fuddugol Dewi Wyn Williams - *La Primera Cena*. Llynedd dyma'r ddrama sicrhaodd y Fedal Ddrama i Dewi ac eleni gwelodd ffrwyth ei lafur wrth i Theatr Genedlaethol Cymru lwyfannu'r perfformiad ar y Maes. Drama sy'n adrodd stori dyn yn cyfarfod â'i dad am y tro cyntaf ers deng mlynedd ar hugain yw *La Primera Cena* - y tad wedi ei erlyn wedi damwain car a laddodd y fam. Mae'r mab, oedd yn blentyn adeg y ddamwain, yn ceisio darganfod sut a pham ddigwyddodd y ddamwain. Drama sy'n seiliedig ar ddigwyddiad go iawn sydd yma. Drama ardderchog - perfformiadau gwych iawn!

# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

**Merched y Wawr**
Cychwynnwyd y tymor newydd gyda sgwrs hynod o ddiddorol gan Peter Lewis, Ficer Sant Catherine. Mis yma fydd y Gangen yn cwrdd yn Festri Capel Sardis nos Iau, Hydref 8fed am 7.30p.m. pan ddaw Lewis ac Ian o Ambiwlans Sant Ioan i roi gwers Cardio-pwlmonaidd (CPR).

**Cwpan Rygbi'r Byd**
Llongyfarchiadau i Owain Morgan Jones, Caerdydd. Fe oedd yn gyfrifol am greu'r hysbys yn hyrwyddo rhaglenni teledu 'Cwpan Rygbi'r Byd 2015'

**Clwb llyfrau**
Dewch i Glwb y Bont nos Fawrth, Hydref 13eg am 8.00p.m. Fe fydd dwy nofel dan sylw'r mis yma sef cyfrol fuddugol Gwobr Daniel Owen Eisteddfod Meifod 'Veritas' gan Mari Lisa ac hefyd llyfr diweddara'r awdures o Sir Benfro Gwen Parrott 'Tra bo dwy'.

Nofel mis Tachwedd yw'r llyfr Saesneg 'Mr. Mac and Me' gan Esther Freud. Byddwn yn cwrdd nos Fawrth Tachwedd 17eg

**Croeso**
Pob hwyl i Mair a Drew wrth iddynt ymgartrefu yn Hillside View, Graigwen.

**Llongyfarchiadau**
Dymuniadau gorau i Derick a Margaret Ebbsworth, Graigwen ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Mwynheuon nhw'r diwrnod yng nghwmni eu pedwar mab a'u teuluoedd.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Delyth Davies, Cilfynydd a'r teulu. Bu farw chwaer hyna Delyth yn Ysbyty Bodelwyddan ym mis Medi. Roedd hi'n byw yn Nhreffynnon.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau i Bryn Reynolds a Carys King ar enedigaeth merch fach, Zara. Mae'r ddau ohonynt yn gyn ddisgyblion Ysgol Gyfun Rhydfelen.

**Teithio Tramor**
Pob hwyl i Iolo Morgan Jones, Graigwen wrth iddo deithio am wythnos i Dde Affrig i wneud gwaith gwirfoddol. Mae Iolo yn gweithio i gwmni 'Mears' ac maent yn danfon aelodau o'u staff o bryd i'w gilydd i ymgymryd â phrosiectau fel codi cartrefi i blant amddifad.

## Taith adran Gelf a Ffotograffiaeth Ysgol Gyfun Garth Olwg i Lundain

(Lluniau tudalen 16)

Aethon ni ar daith i Lundain fel Adran Gelf a Ffotograffiaeth ar ddydd Mercher 23ain o Fedi 2015. Dechreuon ni'r daith o'r ysgol am 5:30 y bore a chyrhaeddon ni am 10:00, mi roedd e'n daith hir. Dechreuon ni yn Piccadilly Circus a cherdded draw i Chinatown lle cymeron ni nifer o luniau. Yn brin o amser, cerddon ni yn gyflym lawr i Sgwâr Traffalgar lle cawsom amser i edmygu'r holl adeiladau crand a'r cerflunwaith hen a modern.

Ar ôl tipyn o amser yn Sgwar Traffalgar cerddon ni draw i weld y gwarchodwyr brenhinol ar eu taith trwy'r ddinas. Llwyddon ni i'w gweld mewn pryd cyn iddynt adael.

Cerddon ni draw wedyn i ymweld â 'Big Ben' a'r Tŷ Cyffredin. Wrth gerdded dros bont Westminster, roedd llawer o bethau i weld ac arsylwi. Bwriad y dydd oedd cael lluniau o safon, felly cymeron ni ychydig o amser yn arbrofi gyda'n camerâu i gael y llun perffaith! Cymeron ni'r bws wedyn draw at y Tate Modern i weld celf fodern y byd, lle cwestiynodd sawl un ohonom bwrpas a llwyddiant y gwaith. Gwelon ni waith sawl artist a astudiwyd yn ystod y cwrs TGAU, felly roedd hynny'n brofiad.

Wedyn aethon ni draw i weld yr adeilad talaf yn Llundain sef y 'Shard' lle cymeron ni amser i ddarganfod yr ongl berffaith i gymryd y lluniau.

Aethon ni wedyn i ymweld â 'Tower Bridge' a chroesi'r bont enwog. Yn olaf cawsom gyfle i fynd ar yr olwyn fawr, 'The London Eye'.

Roeddwn i yn nerfus i ddechrau, fel sawl person arall gan gynnwys Mrs Jones ond yn y diwedd dim ond am gael lluniau da roeddwn i'n poeni! Ar ôl diwrnod hir a blinedig cyrhaeddon ni adref yn hwyr iawn, ond o leiaf roedd pawb yn hapus ac wedi llwyddo cymryd lluniau arbennig. Diolch yn fawr i Mrs Jones a'r Adran am drefnu ddiwrnod llwyddiannus!

Gan Morgan Thomas, Blwyddyn 12

**Symud tŷ**
Pob hwyl yn eu cartref newydd yn y Ddraenen Wen i Nerys a Mike Brown a'r bois. Llongyfarchiadau i Ethan Brown ar gael lle yng Ngholeg Fitzwilliam, Caergrawnt i astudio Gwyddoniaethau Naturiol.

Ceri Davies, sy'n wreiddiol o Graigwen, yw perchennog newydd ty'r Browns. Mae hi'n athrawes yn Ysgol Santes Tudful. Croeso iddi hi a phob dymuniad da.

## Cinio Glyndŵr 2015

Bob dwy flynedd mae Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg yn gwahodd person amlwg ym mywyd Cymru i annerch cynulleidfa o gefnogwyr y Gronfa mewn cinio arbennig. Eleni fe edrychwn ymlaen at anerchiad gan yr Athro Laura McAllister, sy'n athro mewn llywodraeth ym Mhrifysgol Lerpwl. Mae hi hefyd yn gadeirydd Chwaraeon Cymru.

Brodor o Ben-y-bont ar Ogwr yw Laura, ac mae o arwyddocâd arbennig ei bod wedi bod yn ddisgybl yn Ysgol Glyndŵr – yr Ysgol Gymraeg arbrofol a sefydlwyd ym Mhen-y-bont yn 1968 gan Trefor a Gwyneth Morgan, sylfaenwyr Cronfa Glyndŵr.

Yn gynharach eleni fe gafodd ei hethol yn gymrawd yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru – yn gydnabyddiaeth o'i harbenigedd ym maes llywodraeth a datganoli, yn ogystal â'i chyfraniad at hybu statws menywod mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus.

Nid yw'n ofni dweud ei dweud! Fe gorddodd y dyfroedd mewn anerchiad yng Ngŵyl y Gelli eleni trwy awgrymu y byddai llwyddiant i dîm pêl-droed Chris Coleman yn gwneud mwy o les i ddelwedd Cymru na buddugoliaeth yng Nghwpan Rygbi'r Byd! Eglurodd mai dadl o safbwynt 'busnes' oedd hynny, wrth gwrs, a'i bod yn daer am weld Cymru'n llwyddo yn y **ddau** faes.

Mae'n siwr y bydd ganddi neges bwrpasol iawn i ni yng Nhinio Glyndŵr. Croeso i chi ymuno â ni – nos Sadwrn, 24 Hydref yng Nghlwb Golff Radur. Manylion pellach ar gael ar ein gwefan www.cronfaglyndwr.net (Digwyddiadau) neu drwy ffonio 029 20 566731.

[Sefydlwyd Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg yn 1963 er mwyn hybu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n dal i fynd – ac yn dal i 'wneud gwahaniaeth' mewn sawl ardal yng Nghymru.]

**Bangla Cymru**
Cynhaliwyd cyngerdd yn Eglwys Sant Catherine ym Mis Medi gan Gôr Meibion Pontypridd a'r delynores Eleri Darkins i godi arian i'r elusen Bangla Cymru.

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis:
Siân Cadifor

**Trydaneiddio rheilffordd**
Fe fu sgwrs gan ddau o Lantrisant ar raglen Y Post Cyntaf yn ddiweddar pan fu Iolo James yn holi Dean Powell, yr hanesydd lleol, am y gwaith o addasu rhai o'n pontydd hanesyddol ni wrth baratoi ar gyfer trydaneiddio prif reilffordd y De.
Er mwyn gwneud lle ar gyfer y gwifrau trydan fydd eu hangen uwchben y trenau, bydd rhaid addasu dros 60 o'r pontydd sy'n croesi'r rheilffordd, gan gynnwys y ddwy bont ym mhentrefi Pontyclun a Meisgyn. Gallai hyn olygu nail ai ail-adeiladu pont, gostwng lefel y rheilffordd, neu ddymchwel y bont a chodi un fetel yn ei lle.

Bydd y gwaith o drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Abertawe a Llundain yn cael ei gwblhau erbyn 2018, gan gwtogi'r daith rhwng y ddwy ddinas o fwy nag ugain munud. Er y dywedir y bydd hyn o fudd mawr i economi Cymru, gallai'r gwaith o drydaneiddio niweidio masnach leol, yn ôl perchnogion busnesau bychain ym Mhontyclun.

Er y byddai'r perchnogion busnesau ym Mhontyclun yn croesawu'r trydaneiddio, maen nhw wedi bod yn pryderu y byddai'r gwaith yn golygu cau'r ffordd am gyfnod ac ail-gyfeirio trafnidiaeth, gan achosi anghyfleustra i fusnesau a theithwyr yn y pentref a'r ardal ehangach, gan fod pont Pontyclun yn rhan o'r brif ffordd drwy'r pentref. Yn y cyfamser bu Network Rail yn ystyried yr opsiynau ar gyfer addasu pontydd Pontyclun a Meisgyn, ac roedden nhw'n bwriadu ymgynghori gyda'r trigolion lleol cyn cychwyn ar y gwaith.

**Hanes y pwdin reis**
Llongyfarchiadau i Eluned Davies-Scott ar ei sgwrs hynod ddifyr ar raglen Bore Cothi fore Llun, 10ed Awst. Roedd Eluned yn trafod hanes y pwdin reis! Clywsom am wahanol draddodiadau o bob rhan o'r byd, am ryseitiau cogyddion adnabyddus ac am bwysigrwydd y pwdin reis traddodiadol ar ddyddiau cneifio a lladd gwair ar ffermydd Cymru. Roedd Eluned wedi paratoi enghreifftiau o bwdinau reis ac mae'n amlwg i Tomos Morse y cynhyrchydd gael gwledd i'w'chofio! G.R.

**Chwaer fach newydd (Llun tudalen 4)**
Mae Carwyn Rees wrth ei fodd, fel y gwelwch yn y llun. Cyrhaeddod ei chwaer fach, Ela Fflur ar Awst 31ain. Llongyfarchion i Aled a Becky. Mae mamgu a tadcu, Huw a Meinir Rees, Meisgyn yn mynd i fod yn fwy prysur fyth, a da iawn gweld fod tadcu wedi cael car newydd sbon i dywys dau deithiwr mor bwysig o amgylch yr ardal! E.D.S.

**Merched Y Wawr**
**Cangen Tonysguboriau**
Cawsom ein cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd ar Fedi 16eg. Da iawn oedd gweld wynebau cyfarwydd a rhai newydd hefyd. Roeddem yn falch o gael cwmni Nia Jones, cyn lywydd rhanbarth de-ddwyrain y mudiad, yn ein cyfarfod. Mae cangen ac ardal Tonysguboriau yn agos iawn at galon Nia; dyma lle gychwynnodd hi ei gyrfa fel athrawes. Bu'n son am ei chefndir a phwysigrwydd y mudiad iddi hi. Cawsom sawl her ganddi fel mudiad a changen ac fe fyddwn yn siwr o ymaeteb yn bositif i'r rhain gan gychwyn yn ein cyfarfod nesaf pryd byddwn yn lansio diwrnod 'Shwmae' ar Hydref 14eg. Byddwn yn croesawu mwy o ddysgwyr i'n plith i gael 'paned a sgwrs ar y noson hon. Hefyd, cafodd pwyllgor y gangen gefnogaeth ein haelodau i gyfrannu at wobr un o'r cystadlaethau ar gyfer dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol 2016.

Rydym yn gobeithio cael gwibdaith i'r Sioe Aeaf ar Ragfyr 1af. Os oes diddordeb gan aelodau o unrhyw gangen leol arall i ymuno a ni i fynd i Llanelwedd mae angen cysylltu ag Eluned Davies-Scott (mail.scott@tiscali.co.uk) cyn Hydref 14eg. E.D.S.

**Ymweliad â Crécy**
Er mwyn cwblhau trefniadau gefeillio Llantrisant a Crécy-en-Ponthieu aeth dirprwyaeth o Lantrisant draw i ogledd Ffrainc ddiwedd Awst.

Roedd yr ymweliad yn cyd-daro â Gŵyl Sant Louis sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn yn ystod penwythnos olaf Awst. Roedd y dref gyfan wedi ei thrawsnewid i gyfnod y Canol Oesoedd gyda'r trigolion wedi eu gwisgo yn nillad y cyfnod a stondinau yn adlewyrchu bywyd y cyfnod.
Prif bwrpas y penwythnos yw cofio Brwydr Crécy ym 1346 pan fu Edward 111 gyda help bwawyr Llantrisant yn drech na'u gwrthwynebwyr o Ffrainc yn y frwydr enwog honno.

Cafwyd penwythnos i'w gofio. Dechreuodd y gweithgareddau gyda chyngerdd gan griw o drwbadwriaid. Dydd Sadwrn roedd yr Ŵyl yn ei hanterth gyda phob math o weithgareddau a daeth y diwrnod i ben gyda gwledd ganol oesol gyda dros 600 o bobl yn bresennol. Yn dilyn gwasanaeth yn yr eglwys fore Sul roedd gorymdaith drwy'r dref i osod torchau o flodau ar gofgolofn i gofio'r rhai fu'n ymladd yn y frwydr.

Daeth y gweithgareddau i ben brynhawn dydd Sul gyda llofnodi Siarter Cyfeillgarwch rhwng y ddwy dref. Yn ei anerchiad dywedodd maer Crecy, Gerard L'Heureux ei fod yn hynod falch o'r achlysur ac y byddai'r cyfeillgarwch rhwng y ddwy dref yn parhau am genedlaethau i ddod. Geraint Hughes.

**Ysgol newydd**
Mae'r gwaith o godi adeilad newydd sbon ar gyfer Ysgol Gyfun y Pant wedi cychwyn ar safle'r ysgol, ac fe gyhoeddodd Cyngor Rhondda Cynon Taf luniau ym mis Medi yn dangos argaffiadau arlunydd o'r adeiladau arfaethedig, a fydd yn cynnwys bloc addysgu newydd, a gwelliannau i'r adrannau drama a chwaraeon ac i amgylchedd allanol yr ysgol.

Bwriedir i'r ysgol ar ei newydd wedd, a fydd yn costio £24 miliwn, fod yn barod erbyn 2017, gyda'r posibilrwydd o'i hehangu i gynnwys 1600 o ddisgyblion yn y dyfodol. Mae'r datblygiad hwn yn rhan o "Raglen Ysgolion yr 21ain ganrif" y Cyngor. Yn y cyfamser newidiwyd dalgylch yr ysgol gan orfodi disgyblion ysgolion Penygawsi a Llantriant i fynychu Ysgol Gyfun Bryncelynnog, oherwydd prinder lle yn ysgol y Pant ar hyn o bryd, ond dywed y Cyngor bod rhyddid i rieni y tu allan i'r dalgylch i wneud cais i Ysgol y Pant am le i'w plant yn y dyfodol. Mae'n bosibl darllen am ddatblygiad y gwaith adeiladu mewn cylchlythyr Cymraeg gan y cwmni adeiladwyr ar wefan yr ysgol.

**Bore Coffi Mawr Macmillan**
Diolch i bawb ddaeth i gefnogi Bore Coffi Mawr Macmillan a drefnwyd gan Grŵp Codi Arian Pontyclun a'r Ardal. Roedd y lle dan ei sang drwy'r bore gyda digonedd o gacennau, sesiynnau therapi a stondinau i blesio pawb. Ein nod oedd cyrraedd ein targed o £30k; gwnaed dros £1,800 fore dydd Gwener (ac mae rhagor o arian ar ei ffordd) felly rydym yn bell tu hwnt i'n nod o gasglu £30k ers i ni gychwyn ein gwaith fel grŵp ychydig dros ddwy flynedd yn ôl.
Eluned Davies-Scott (ar ran y grŵp)

Gohebydd mis nesaf: Awen Mai
Awen.Evans@Wales.gov.uk

# Ysgol Pont Sion Norton

**Croeso**
Croeso mawr i'r 36 o blant newydd yn y dosbarth Meithrin. Maent i gyd wedi setlo'n hyfryd.

**Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i Gabriel Lima, blwyddyn 6, am gael ei ddewis i chwarae yn nhim Pel-fasged Cymru dan 12 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Owain James, blwyddyn 6, am gael ei ddewis i chwarae rygbi i'r rhanbarth (o dan 11 oed).

**Llancaiach Fawr**
Cafwyd diwrnod addysgiadol a hwyl yn Llancaiach Fawr ar ddiwedd mis Medi, pan aeth blwyddyn 5 a 6 yno fel rhan o'u thema am Oes y Tuduriaid. Bu'n gymorth mawr i'r plant wrth wneud eu gwaith ysgrifennu.

**Danywenallt**
Aeth blwyddyn 6 i Ddanywenallt i aros yno yn ddiweddar. Cafwyd profiadau gwych wrth fynd am daith cerdded a gweithgareddau erailll awyr agored. Daeth pawb adref wedi blino'n lan!

# tafod elái


***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***HYSBYSEBION***
***David Knight 029 20891353***

***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Tachwedd
i gyrraedd erbyn
23 Hydref 2015

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**

***Argraffwyr:***
**Gwasg Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**

***Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

**Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd**
Cynhelir ein gweithgaredd codi arian cyntaf nos Wener, 6 Tachwedd am 7pm yn Neuadd Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Noson bysgod a sglodion fydd hi gyda'r bwyd yn dod o siop sglodion orau Cymru, y 'Crispy Cod'. £7 y pen am bysgod a sglodion a chwis. Croeso i chi ddod â'ch diod eich hun. Rhowch wybod i Helen (manylion uchod) os byddwch chi eisiau dod.
Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor nos Fercher, 28 Hydref am 6.30pm yn Neuadd Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau i Llinos ac Ian Davies ar enedigaeth Alys Mair Davies ar Fedi 6ed yn pwyso 8 pwys a 12 owns. Mae ei brawd mawr Wil, ynghyd â Tad-cu a Nain, Jeff ac Ann Owen, wrth eu boddau. A'r newyddion da yw bod y teulu bach yn symud i Donyrefail i fyw gyferbyn â Jeff ac Ann. (Llun Tudalen 4)

**Brysiwch wella**
Da iawn clywed bod Mr Davies, neu DJ, yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty ers diwedd Gorffennaf yn dilyn cwymp yn ei gartref. Mae'n edrych ymlaen yn fawr at fod yn ôl yn ei gartref ei hun, er cystal y gofal yn yr ysbyty.

**Pob lwc Katie!**
Pob dymuniad da i Katie, wyres John a Myfanwy Hunt. Mae Katie'n astudio ieithoedd yng Ngholeg Magdalen yng Nghaergrawnt ond eleni bydd yn treulio'r flwyddyn yn helpu gyda ffoaduriaid yn Yr Almaen.

## Ysgol Gynradd Creigiau - Llywodraethwyr y Gymuned

Mae Ysgol Gynradd Creigiau yn chwilio am aelodau o'r gymuned leol i ymuno â'u Bwrdd Llywodraethol gweithgar. Os oes gennych ddiddordeb neu os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwtwch â Phennaeth yr ysgol, Mrs Delyth Kirkman ar 02920891045 neu ebostiwch creigiauprm@cardiff.gov.uk. Edrych wn ymlaen i glywed gennych.

**MERCHED Y WAWR**
**Cangen y Garth**

**Caroline Martin yn trafod Meddwlgarwch**

**Nos Fercher, Hydref 21ain**
**8yh Festri Capel Bethlehem,**
**Gwaelod y Garth**

**Dewch â ffrind!**
**Edrychwn ymlaen**
**at eich cwmni!**

**Manylion: 029 20890770**

## CLWB Y DWRLYN

**Cwis**
**gyda**
**Gary a Katrina**
8.00yh Nos Iau
Hydref 15
yng Nghlwb Rygbi Pentyrch
Aelodaeth £10

Manylion: 029 20890040

**MERCHED Y WAWR**
**Cangen Tonysguboriau**

**Croesawu Dysgwyr a Lansio Diwrnod Shwmae**
**7.30yh, Hydref 14eg**
**Y Pafiliwn, Tonysguboriau**

Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

## Eisteddfod y Gymoedd

Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach
Nos Wener, 16eg o Hydref
gan ddechrau am 5.00 o'r gloch

01443812820 neu gwilymt@sky.com

**Bore Coffi i'r dysgwyr**
**yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore.**
**Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.**

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Ffarwelio**
Erbyn hyn mae Eirlys a Cerith Davies wedi symud o Bentyrch ac wedi ymgartrefu ar eu haelwyd newydd yn Danescourt. Eto mae'n dda iawn cael dweud y bydd y ddau yn dal i ddod nôl atom i gymdeithasu, cerdded a chware golff! Dymunwn bob dedwyddwch ac hapusrwydd iddynt lawr yn y ddinas.

**Prifysgol**
Llongyfarchiadau gwresog i blant y pentre' ar eu llwyddiant yn yr arholiadau Safon Uwch. Bydd Beth Williams yn mynd i Brifysgol Nottingham i astudio Hanes, Siwan Evans i Fanceinion i astudio Ffiseg ac Elouise Bennett i Brifysgol Birmingham i astudio "Liberal Arts and Sciences." Dymunwn yn dda iddynt ar ddechrau cyfnod cyffrous yn eu gyrfaoedd. Pob lwc i'r dair ohonynt.

**Genedigaeth (Llun tudalen 4)**
Llongyfarchiadau i Sara ac Aled Davies ar enedigaeth Steffan Moi. Mae Elis Morgan, ei frawd mawr wedi dwli arno, ac mae Mam-gu, sef Gwyneth Lewis, wrth ei bodd hefyd. Pob dymuniad da i'r teulu bach yn Nhreganna.

**Chwarae Cyffwrdd**
Cafodd Manon Griffith o Bentyrch a Tom Angell, Rhys Lynch a Daniel Roberts o Creigiau eu dewis i gynrychioli Cymru yng nghamp Rygbi Cyffwrdd yn ddiweddar. Chwaraeodd Manon yn nhîm y merched, a Tom a Daniel yn y tîm cymysg o dan 18 ym mhencampwriaeth Ewrop a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Nottingham. Enillodd holl dîmau Cymru dan 18 y bencampwriaeth - y merched, y bechgyn a'r tîm cymysg. Dyna benwythnos llwyddiannus iawn i Gymru. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Un a fu yn chwarae Cyffwrdd i Gymru yw Siwan Gruffudd. Erbyn hyn mae Siwan yn is-hyfforddwraig tîm cymysg Cymru a phrif hyfforddwraig Rhanbarth y Rhyfelwyr. Dyma oedd ganddi hi i'w ddweud, "Teimlais falchder mawr wrth weld y tri thîm yn perfformio mor arbennig gan ennill y bencampwriaeth.

Daethant â chlod mawr i'r byd Cyffwrdd yng Nghymru. Mae'n amlwg bod dyfodol disglair iawn i'r gamp yn ein gwlad ac edrychwn ymlaen at groesawu nifer o'r ieuenctid yma i dîmau agored Cymru yn ystod y blynyddoedd a ddaw."

**Genedigaeth (Llun tudalen 4)**
Llongyfarchiadau mawr i Lowri Glyn a Chris Warlow ar enedigaeth Pegi Alys ar ddiwrnod olaf mis Awst. Fe ddaeth i'r byd yn pwyso saith pwys ac un owns ar ddeg. Mae'r teulu o'r ddwy ochor wedi gwirioni yn bost a mamgu a thaid Pentyrch, Joy ac Eifion Glyn yn hogi'r arfau yn barod i warchod a siglo crud eu hwyres fach gyntaf. Ac mae mamgu a thad-cu Sir Benfro, Olwen ac Ashley Warlow yn cyfri'r dyddiau am ymwelaid nesaf y groten fach. Pob dymuniad da i'r teulu bach yn Forrest Road, Treganna.

**Cydymdeimlad**
Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth sydyn Diana Prichard, Heol Penuel, ddiwedd mis Awst. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Catwg ac estynnwn ein cydymdeimlad didwyll i Brian a'r plant, Sarah, Joanna a Shaun a'u teuluoedd.

## CROESAIR COL



**Ar Draws**
1. Cysylltiol (6)
4. Ymgasglu (6)
7. Arddodiad (4)
8. Gwniadwraig (8)
9. Targed (7)
12. Cogydd (3)
14. Enw fel ymgeisydd (6)
15. Pryf copyn (6)
16. Cymdeithas (3)
18. Tyfiant caled ar groen (7)
22. Lle llithrig (8)
23. Dôl (4)
24. Swyno (6)
25. Grymus (6)

**I Lawr**
1. Gwneud crynhoad (9)
2. Noddfa (9)
3. Merch (5)
4. Trafod (5)
5. Nerth (4)
6. Difudd (2-3)
10. Dychrynllyd (5)
11. Heb golli amser (2-3)
12. Talaith (9)
13. Cyfarwydd (9)
17. Stŵr (5)
19. Dim ar agor (2,3)
20. Adennydd (5)
21. Elwlen (4)

**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX erbyn 16 Hydref 2015**

## Atebion Medi

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | N | Y | D | I | O | G | | D | | E | | C |
| Y | | M | | O | | W | H | I | M | B | I | L |
| D | I | L | Y | N | O | L | | A | | I | | O |
| Y | | E | | O | | A | E | R | | LL | | D |
| M | O | D | U | R | O | N | | F | | I | | |
| A | | U | | | | A | T | O | | O | E | D |
| I | | | | P | | | | G | | | | A |
| TH | U | S | | L | O | B | | | | I | | R |
| | | T | | Y | | O | R | G | A | N | E | B |
| G | R | O | E | G | W | R | | W | | D | | O |
| I | | C | | A | | E | B | Y | CH | I | A | D |
| N | E | I | S | I | E | D | | G | | A | | O |
| N | | O | | N | | A | B | L | A | D | O | L |

# Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

**Jeans for Genes**
Mwynheuodd y plant a staff yr ysgol ddathlu diwrnod 'Jeans for Genes' gan wisgo jîns i'r ysgol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Fe gasglwyd £262.20.

**Plant ac Athrawes newydd**
Croeso mawr i blant newydd y Feithrin sydd wedi ymgartrefu yn nosbarthiadau Miss Greening a Miss Oakey'n wych! Croeso mawr hefyd i Miss Hughes sydd wedi dod atom o Ysgol Gynradd Castellau.

**Blwyddyn 3 a 4**
Fel rhan o'u gwaith thema, aeth Blwyddyn 3 a 4 ar drip i Amgueddfa Rhufeinig Caerleon. Cawsant hwyl yn gwisgo lan a darganfod nifer o ffeithiau ddiddorol am fywyd y Rhufeinwyr.

**Tŷ Eco**
Mae'r Tŷ Eco (Ystafell Ddosbarth Awyr Agored) bellach wedi'i osod. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni a grant gan y loteri am ariannu'r prosiect. Defnyddir y tŷ fel dosbarth allanol i addysgu'r disgyblion am faterion gwyrdd.

# Ysgol Creigiau

Fe ddiflannodd gwyliau'r Hâf yn sydyn, ac mae pawb bellach yn ôl yn ddiogel ac wedi ail gydio ym mywyd prysur yr ysgol. Braf yw gallu estyn croes cynnes nôl i Mrs Sian Matthews a Mrs Eleri Evans sydd wedi bod ar gyfnod mamolaeth.

Mae'r holl glybiau a'r gweithgareddau allgyrsiol wedi ail ddechrau a braf gweld aelodau bach newydd yn ymuno a chael hwyl.

Croeso arbennig iawn i ddisgyblion bach newydd y Dosbarth Derbyn. Mae Mrs Eleri Evans a Mrs Helen Jones eu hathrawesau eleni, wrth eu bodd yn eu cwmni ac yn hapus iawn i allu dweud bod pob yr un ohonynt wedi ymgartrefu'n dda yn y dosbarth.

Croeso arbennig iawn hefyd i Efa a Llew sydd wedi ymuno â'r ysgol o'r newydd. Mae'r ddau wrth ei boddau gyda'u dosbarthiadau a'u ffrindiau newydd.

Fe ddychwelodd disgyblion Blwyddyn 6 yn ddiogel o'u hwythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Cawsant amser gwych a bythgofiadwy yn y gwersyll wrth iddynt gymryd rhan yn yr holl weithgareddau. Roedd y bws llawer tawelach ar y daith yn ôl adre ddydd Gwener nag yr oedd wrth fynd i'r Gwersyll ar ddechrau'r wythnos!!

Diolch i'r Parchedig Michael John am ddod i'r ysgol i sgwrsio gyda'r disgyblion. Siaradodd yn wych am y gyfrifoldeb sydd gan bob yr un ohonom i wisgo gwisg "parch" amdanom yn ddyddiol.

Rydym wedi bod yn dathlu Cwpan Rygbi'r Byd gydag wythnos o weithgareddau arbennig. Penodwyd gwlad i bob dosbarth, ac yn ystod yr wythnos aeth pawb ati i ymchwilio i draddodiadau'u gwledydd. Roedd hi'n dipyn o olygfa yn yr ysgol ar y dydd Iau pan gwahoddwyd pob plentyn i wisgo yn lliwiau cenedlaethol y gwledydd.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

**Croeso**
Croeso i ddau ddisgybl newydd sef Conor a Liam Evans. Gobeithio y byddant yn hapus iawn gyda ni.

**Bara Braces**
Fe ddaeth Lyn Jones o gwmni Bara Braces atom yn ddiweddar, er mwyn cynnal gweithdai gyda disgyblion CA2. Fe ddysgon ni am hanes bara, sut mae gwneud bara, datblygiad brechdanau yn ogystal â chael cyfle i wneud torth o fara yn y dosbarth. Fe gafodd pawb fag i fynd adre gyda nhw oedd yn cynnwys torth o fara a phecyn gweithgareddau amrywiol.

**Penwythnos Llangrannog**
Ar benwythnos y deunawfed o Fedi, fe aeth 96 o ddisgyblion o chriw o staff i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog, er mwyn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau cyffrous. Roedd pawb wrth eu boddau'n cael nifer o brofiadau newydd. Diolch i'r staff a roddodd o'u hamser er mwyn i'r disgyblion gael y cyfle i fwynhau penwythnos drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Roadshow Llanhari**
Cynhaliwyd "Roadshow Llanhari" yn yr ysgol ar Fedi'r 17eg, dan ofal Mrs Rhian Phillips, Mrs Meinir Thomas a Mrs Angharad Morgan. Roedd cyfle i rieni a disgyblion Blwyddyn 6 i ddarganfod mwy am yr hyn fydd yn eu hwynebu pan fyddant yn symud i Ysgol Gyfun Llanhari ymhen blwyddyn.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Aled Willan, Efan Morgan-Gould a Tomi Edwards ar gael eu dewis yn aelodau o garfan pêl-droed Rhondda Cynon Taf.

**Y Bathdy Brenhinol**
Daeth Lucianne o'r Bathdy Brenhinol atom er mwyn trafod gwaith y Bathdy gyda disgyblion Blynyddoedd 1 a 2. Cafwyd cyflwyniad ar hanes y Bathdy a chyfle i weld amrywiaeth o arteffactau yn ogystal ag arian o wahanol wledydd. Roedd cyfle hefyd i'r plant hefyd i holi cwestiynau.

## Hysbyseb swydd

Mae Rhanbarth Morgannwg Ganol yr Urdd yn chwilio am bobl frwdfrydig i arwain clybiau ieuenctid yn yr ardal.

Bydd angen profiad o weithio neu wirfoddoli gyda phlant a phobol ifanc ar ymgeiswyr. Dylech hefyd fod yn hyderus i ddarparu gweithgareddau amrywiol a chyffroes i aelodau ein clybiau.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â gwyriad DBS

Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio cysylltwch â Jordan@urdd.org

# Albwm newydd y Soprano Shân Cothi

Mae'r soprano Gymraeg o fri, Shân Cothi, wedi datgelu manylion am ei halbwm newydd, y cyntaf ers deng mlynedd – 'Paradwys' – ynghyd a'i chynlluniau am daith unigryw o gwmpas eglwysi a chapeli Cymru.

Bydd yr albwm, y cyntaf ers yr albwm canmoledig 'Passione' ym 2005, yn cael ei ryddhau ym mis Hydref. Fe'i recordiwyd yn stiwdio Acapela ym Mhentyrch. Darparwyd y gerddoriaeth ar gyfer yr albwm gan nifer o gerddorion disglair gan gynnwys y delynores ryngwladol Catrin Finch, sydd i'w chlywed ar sawl trac gan gynnwys un a gyfansoddodd hi ei hunan, sef 'Feeling Alive'. Aeth Catrin at Shân yn gynharach eleni gyda'i chyfansoddiad gan awgrymu comisiynu bardd i ysgrifennu ychydig o eiriau a phenillion, ond yn nodweddiadol o Shân, penderfynodd roi cynnig arni ei hunan a thros gwpwl o wythnosau cyd-ysgrifennu'r geiriau i'r trac 'Feeling Alive'.Yn ogystal â hyn, fe geir deuawdau ar yr albwm gan y seren opera ryngwladol a'r soprano Rebecca Evans a'r darlledwr teledu a radio Wynne Evans.

Cyngerdd 'Paradwys' nos Sadwrn, Rhag 5, Eglwys yr Holl Saint, Penarth tocynnau www.acapelaconcerts.com

## Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Lyn Jones o gwmni Braces yn siarad gyda'r disgyblion am fara.

**Hwyl yn Llangrannog**




## Ysgol Creigiau

Plantos mwdlyd Dosbarth 6 Ysgol Creigiau yn Llangrannog

Dosbarth 6 ar draeth Cei Newydd

## Ysgol Castellau

Braf oedd gweld y plant nôl yn yr ysgol ar ôl eu gwyliau haf. Croeso arbennig i Mr Daniel Jones ein dirprwy newydd ac i 26 o wynebau newydd i'r dosbarth Meithrin!

Mae naw o glybiau allgyrsiol ar y fwydlen y tymor hwn a thipyn o diddordeb am ein Clwb Judo a Chlwb Digidol newydd.

Cafodd tri o'n disgyblion gyfle arbennig i fynd i'r Senedd ym Mae Caerdydd i siarad gyda'r Aelod Seneddol Julie Morgan am sut maent wedi gwella'u sgiliau darllen trwy ddarllen gyda Mac y ci o elusen Pets as Therapy.

Enillwyr Cystadleuaeth Ysgrifennu Portread Cymraeg am Fôr Leidr. Sgwennu Syfrdanol gan y criw yma. Da

Enillwyr Cystadleuaeth Ysgrifennu Creadigol Saesneg. Cafodd dau o'r darnau eu cyhoeddi, - gwych!

# YSGOL LLANHARI

**Dathlu Canlyniadau ardderchog Haf 2015**

**Safon Uwch**
Braf iawn oedd tystio i firi dathlu canlyniadau 2015 ymhlith disgyblion y chweched dosbarth, staff a rhieni eleni, wrth iddynt lwyddo i wella ymhellach ar ganlyniadau Safon Uwch y llynedd. Rydym yn hynod o falch bod 68% o'r disgyblion wedi llwyddo i ennill graddau A*-C mewn dau neu fwy o bynciau Safon Uwch, gyda 21% o'r disgyblion mewn carfan fechan o 25 disgybl yn llwyddo i ennill graddau A* ac A mewn dau bwnc neu fwy. Dathlwn lwyddiant yr holl ddisgyblion sydd wedi cyrraedd eu potensial ac sydd wedi gweithio yn ddygn a chael eu haeddiant. Dilynodd y disgyblion gyrsiau traddodiadol academaidd yn ogystal â phynciau galwedigaethol yn y chweched. Llongyfarchiadau i'r holl athrawon a disgyblion a dymunwn yn dda i'r bobl ifanc fydd yn cychwyn ar fyd gwaith neu yn parhau â'u hastudiaethau mewn prifysgolion neu golegau ymhob cwr o'r wlad.

**TGAU**
Mae'n rhaid dathlu eto yn Ysgol Llanhari! Cyhoeddwyd canlyniadau TGAU gorau erioed yr ysgol eleni ac roedd yn benllanw dwy flynedd o lafur caled a dyfalbarhad gan ddisgyblion a staff. Mae'r canlyniadau yn adeiladu ar sylfaen a osodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gyda 100% o'r garfan yn llwyddo i ennill 5 gradd A*- C mewn pynciau TGAU neu gymhwysterau cyfwerth. Testun balchder arbennig yw'r ffaith bod 25% o'r garfan (8 merch a 4 bachgen) wedi llwyddo i ennill pum neu fwy o raddau A*/A. Llwyddodd 65% o'r holl ddisgyblion i ennill gradd A*-C mewn Mathemateg a Saesneg neu Gymraeg. Prin oedd yr wynebau siomedig wrth inni fel ysgol ddathlu blwyddyn arall o ganlyniadau ardderchog lle llwyddodd disgyblion ar draws yr ystod gallu i gyrraedd eu nodau personol gan amlygu ymroddiad arbennig i'w hastudiaethau. Dathlwn fel staff a rhieni gyda'r holl ddisgyblion sydd wedi gwireddu eu potensial ac edrychwn ymlaen i weld nifer ohonynt yn datblygu ymhellach fel aelodau o'n chweched dosbarth. Llongyfarchiadau gwresog i chi gyd!

**Yr Adran Gynradd**
Gobeithiwn fod pawb wedi mwynhau'r gwyliau. Hoffem estyn croeso mawr i'r disgyblion newydd sydd yn ymuno gyda ni eleni. Maent wrth eu boddau yn chwarae yn nosbarth Dewi Draenog ac wedi ymgartrefu'n llwyr yn barod.
Mae drysau meithrinfa Drudwy wedi agor eu ddrysau erbyn hyn yn yn boblogaidd tu hwnt. Mae'r plant yn treulio'r prynhawn yn y feithrynfa o dan ariweiniad Miss Carrie Davies. Mae pob un yn mwynhau chwarae yn eu dosbarth newydd.
Mae Clwb Celf a Chrefft wedi ail ddechrau ar ôl ysgol ar gyfer y disgyblion sydd yn nosbarthiadau Gwion Gwiwer a Lleucu Llwynog. Maent wrth yn paratoi gwaith celf ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith wedi ei arddangos.

**Croeso i Lanhari!**
Croesawyd tair athrawes i'r adran uwchradd ddechrau mis Medi sef Miss Saran Johnson i'r Adran Fathemateg, Mrs Lois Bowen i'r Adran Dechnoleg a Miss Sophie Wluka I'r Adran Addysg Gorfforol. Gobeithio y byddan nhw yn hapus yn ein plith.

**Ymweliadau â'r ysgolion cynradd**
Bu Mrs Rhian Phillips, Mrs Meinir Thomas a Miss Angharad Morgan yn cynnal nosweithiau gwybodaeth "roadshow" yn Ysgol Dolau, Ysgol Gymraeg Tonyrefail ac Ysgol GGG Llantrisant ar ddechjrau mis Medi. Roedd yn braf cyfarfod â rhai o rieni a disgyblion blwyddyn 6. Bydd cyfle i'r disgyblion â'u rhieni ddod i Noson Agored Ysgol Llanhari ar y 14eg o Hydref ac yna cynhelir diwrnod trosglwyddo cyntaf ein calendr cynhwysfawr o ymweliadau ar y 22ain o Hydref.

**Nol i'r 80au**
Mae bri mawr ar ymarferion y sioe ers dechrau'r tymor. Ymunwch â ni yn ystod wythnos olaf mis Tachwedd i weld disgyblion cynradd ac uwchradd Llanhari yn perfformio y sioe liwgar a hwyliog hon!




**Ennill Gwobr arbennig**

Llongyfarchiadau i Emily Ruck, Blwyddyn11 am ennill gwobr Cyflawniad Cadarnhaol yn seremoni wobrwyo RhCT eleni - da iawn ti!

**Noson Sgiliau**
Braf oedd croesawu rhieni disgyblion bl7&8 i'r ysgol ar y 29ain o Fedi pan gynhaliwyd noson o weithdai sgiliau i rieni. Canolbwyntiwyd ar arfer dda o ran rhifedd, e-ddiogelwch, llythrennedd a sgiliau meddwl. Bu'n noson llwyddiannus a hyderwn bod y rhieni wedi elwa!

**Llwyddiannau Addysg Gorfforol**
Bu nifer o ddisgyblion yn llwyddiannus mewn amryw o gampau yn ystod yr Haf.

Llongyfarchiadau i'r canlynol :
Ella Porter blwyddyn 8 ar gynrychioli merched De Cymru mewn cystadleuaeth bêl droed yn yr Iseldiroedd yn ystod yr Haf

Emily Thomas blwyddyn 10 am fod yn aelod o dîm Cymru a enillodd fedal Aur ym mhencampwriaeth gymnasteg ysgolion Prydain.

Daeth Gethin Evans blwyddyn 8 yn 3ydd yn y ras 800 medr ym Mhencampwriaeth yr Youth Development League (YDL) yn Alexandra Stadium, Birmingham. Mae'r bencampwriaeth yn agored i holl athletwyr ifanc Prydain.

**Disgyblion Mwy Abl a Thalentog**
Hyfryd oedd croesawu cyn-ddisgybl, Ifan Jenkin i'n plith yn ystod wythnos olaf Medi i sôn am ei brofiadau fel myfyriwr blwyddyn gyntaf yn astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Rhydychen. Yn sicr fe wnaeth y sgwrs ysbrydoli rhai o'n disgyblion mwya abl a thalentog i anelu'n uchel yn y dyfodol!

# Ysgol Gyfun Garth Olwg

**Blwyddyn 13 yn camu ymlaen â gwên!**
Hoffai Ysgol Gyfun Garth Olwg longyfarch ein hymgeiswyr Safon Uwch a diolch i rieni a staff am y gefnogaeth, gwaith caled ac ymroddiad wrth gynorthwyo'r myfyrwyr i gyrraedd set ardderchog o ganlyniadau. Roedd 98% o'r disgyblion a gofrestrwyd wedi ennill o leiaf 2 gradd A* - C neu gyfatebol ac roedd 31% o'r holl raddau enillwyd mewn cyrsiau Lefel 3 gan gynnwys y Fagloriaeth Gymreig yn "A*" neu "A". Ein ffigwr A*-C oedd 71%. Rydym yn falch am ein cyfradd llwyddo yn y Fagloriaeth Gymreig gyda 89% o'n myfyrwyr yn ennill y cymhwyster. Ymysg ein cyflawnwyr uchel, hoffwn gymeradwyo Ieuan Bennett, Ethan Brown, Eli Cavil, Bethan Griffiths a Carys Jones a enillodd 2 neu fwy o raddau "A*" neu "A" ar ben y Diploma Uwch ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig. Serch hynny, rydym yn hynod falch o gyraeddiadau pob un o'm myfyrwyr. Ymhyfrydwn bod bron pob ymgeisydd ar gyfer Prifysgol wedi sicrhau lle dewisol a'u bod yn nawr yn paratoi i gymryd y cam nesaf yn eu gyrfaoedd. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt a'u llongyfarch ar eu hymdrechion.

**Blwyddyn 12 – dechrau da i gyrsiau Safon Uwch**
Roedd bron hanner yr holl raddau sgoriwyd gan fyfyrwyr Uwch Gyfrannol o safon A-C; y merched yn arwain y ffordd o ran cyfradd pasio (88% o'r holl raddau sgoriwyd ganddynt ar safon A-E). Ymysg ein cyflawnwyr uchel, mae Gruffydd Bowen-Jones, Seren Harris, Carys Rees, Dafydd Roberts and Eleri Roberts yn haeddu sylw arbennig gan i bob un ohonynt gyrraedd o leiaf 2 radd A yn eu pynciau uwch gyfrannol neu gyfatebol.

**Canlyniadau TGAU gorau erioed - Blwyddyn 11 yn cynnal safonau uchel!**
Rydym yn estyn llongyfarchiadau arbennig i'n ymgweiswyr TGAU a BTEC Lefel 2 ar eu canlyniadau a diolch i rieni a staff am eu cymorth wrth gynorthwyo'r disgyblion i gyrraedd set o ganlyniadau ardderchog. Llwyddodd 94% o'n ymgeiswyr Blwyddyn 11 i ennill y Trothwy Lefel 2 (5+ A* - C neu gyfatebol) a 63% i ennill Trothwy Lefel 2+. (5+ A* - C neu gyfatebol gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg) – y canlyniadau gorau yn hanes yr ysgol erioed. Llwyddodd 90 o ymgeiswyr ennill Diploma Canolradd Bagloriaeth Gymreig (yn gyfatebol i 3 radd TGAU o ran sgor pwyntiau). Ymysg ein cyflawnwyr uchel, hoffwn gymeradwyo Harriet Hooper, Jac Smith, Tom Swayne, Daniel Thomas a Tirion Welsby a ennillodd 12 neu fwy o raddau "A*" neu "A" yn ogystal â'u Diploma Canolradd Bagloriaeth Gymreig a Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol. Serch hynny, rydym yn hynod falch o gyflawniadau pob un o'n disgyblion. Rydym yn dymuno'n dda i'r myfyrwyr wrth iddynt parhau gyda'u hastudiaethau neu dilyn eu dewis o lwybr gyrfa yn ystod y flwyddyn i ddod.

Rydym yn llongyfarch ac yn diolch i'n staff ymroddedig am eu gwaith caled a diflino drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd canlyniadau mor arbennig! Diolch yn fawr – da iawn bawb!

Charly Brookman, Carys Jones, Brython Payne, Danielle Minnett, Heulyn Welsby (Blwyddyn 13)

Llongyfarchiadau i Ethan Brown ar ennill lle yng Ngholeg Fitzwilliam Caergrawnt. Bydd Ethan yn astudio Gwyddorau Naturiol.

**Gruff Lloyd yn derbyn gwobr Cyflawniad Cadarnhaol**
Dewiswyd Gruff Lloyd fel disgybl y flwyddyn ym mlwyddyn 11 llynedd, am ei gyfraniad i fywyd yr ysgol – presenoldeb da, prydlondeb gwych, agwedd gadarnhaol at waith a rhinweddau personol fel cwrteisi a chymryd cyfrifoldeb. Dyma lun o Gruff yn y seremoni wobrwyo a gafodd ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf i longyfarch unigolion o ysgolion a cholegau am eu llwyddiannau yn ystod y flwyddyn.

**Morgan Jones, Blwyddyn 8 yn llwyddo mewn sboncen**
Llongyfarchiadau i Morgan Jones a wnaeth gystadlu'n ddiweddar mewn twrnamaint Ewropeaidd sboncen.

**Llwyddiannau Gymnasteg**
Llongyfarchiadau mawr i Isabell Price, Blwyddyn 10 a'i chwaer Eliza Price, Blwyddyn 8 ar eu llwyddiannau mewn cystadleuaeth gymnasteg yn ddiweddar. Mae Isabell wedi llwyddo i ennill lle yn rownd derfynol Cymru lle bydd yn cynrychioli De Canolog Cymru. Pob lwc iddi!

**Llwyddiannau Pêl-rwyd**
Llongyfarchiadau i Grace Postlethwaite, Ella Jones-Iles, Georgia Jenkins, Emily Poole a Gwenno Iolo Davies sydd wedi cael eu dewis ar gyfer treialon pêl-rwyd y sir ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11. Hefyd, llongyfarchiadau i Mali Iolo Davies a Nia Osbourne sydd wedi eu dewis ar gyfer y treialon ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8. Pob hwyl iddyn nhw!

**Llwyddiannau Nofio**
Llongyfarchiadau i Emma Sutton, Blwyddyn 12 ar ei llwyddiant yng nghystadleuaeth haf Cymru dros y gwyliau. Cafodd fedal aur yn y 200 medr a'r 50 medr yn y dull nofio ar y cefn a chafodd hefyd 3ydd yn y 100 medr nofio ar y cefn.

Bu Seren Harris, Blwyddyn 13 hefyd yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth gan ennill medalau aur yn yr 800 medr a'r 200 medr dull rhydd yn ogystal â medal efydd yn y dull rhydd dros 200 medr a medal arian yn y dull rhydd dros 400 medr.

**Llangrannog**
Llangrannog! Ble i ddechrau? Yr hwyl… Y cyfeillgarwch… Y gweithgareddau? Neu efallai'r bwyd? Beth bynnag, Llangrannog oedd un o'r profiadau gorau gallwch gael! Roedd y cyfeillgarwch yna yn anhygoel. Cefais gyfle i gwrdd â ffrindiau newydd heb sôn am gwrdd â'r chweched unigryw! Hefyd, roedd hi'n gyfle i wneud llu o weithgareddau gwahanol na fyddwn fel arfer yn dewis i wneud o ddydd i ddydd. Gweithgareddau gwych megis twmpath hwylus, cwrs antur anhygoel a gwibgartio gwallgof! I gloi, cawsom ddisgo gorau'r byd, yn wir yr oedd hi'n hynod o hwyl i ddawnsio a chanu fel un teulu mawr! Trwy gydol ein hamser hwylus yma yn Llangrannog siaradom heb os nag oni bai, iaith orau'r byd… siaradom Gymraeg!

Gan Annwylun Pike, Blwyddyn 7.

# Dechrau cadarnhaol i dymor Pontypridd

Cafodd Clwb Rygbi Pontypridd ddechrau cadarnhaol dros ben i'r tymor newydd gan sicrhau tair buddugoliaeth yn eu tair gêm gynghrair gyntaf .

Nid oedd yr argoelion gystal wedi gemau cyfeillgar yr haf, pan gollodd Ponty ddwy gêm yn erbyn gwrthwynebwyr o Loegr, adref yn erbyn Ealing Trailfinders ac oddi cartref yn erbyn Henley Hawks. Colli hefyd oedd yr hanes yn rownd derfynol Twrnament Saith Cymru ar Barc yr Arfau, hynny yn erbyn Llanymddyfri.

Er gwaetha'r canlyniadau siomedig roedd yr hyfforddwyr Rob Sidoli, Gareth Wyatt a Garin Jenkins wedi bod yn gweithio'n ddygn gyda'r garfan drwy'r haf gan gyflwyno nifer o chwaraewyr ifanc addawol i'r garfan.

Roedd cyfle i greu tipyn o hanes yn y gêm gynghrair gyntaf oddi cartref yn erbyn Llanelli, wedi i Undeb Rygbi Cymru gyflwyno rheolau sgorio newydd i'w treialu yn Uwch Gynghrair y Principality. Roedd cais yn awr werth chwe phwynt ac roedd dyfalu mawr pwy fyddai'r cyntaf i'w sgorio. Aeth yr anrhydedd i asgellwr chwim Pontypridd Alex Webber, ac roedd y cais hwnnw y cyntaf o naw a sgoriodd y tîm wrth sicrhau buddugoliaeth swmpus o 32pt i 68 dros Lanelli. Yn eu gêm gartref gyntaf o'r tymor newydd parhaodd Ponty i chwarae rygbi creadigol wrth chwalu Pen-y-bont o 50pt i 0. Roedd y gêm nesaf oddi cartref yn erbyn Casnewydd yn un gystadleuol dros ben gyda'r canlyniad yn y fantol tan y munudau diwethaf. Ildiodd Ponty bum cais mewn perfformiad amddiffynnol bregus, ond aed ati i sgorio chwe chais eu hunain i grafu buddugoliaeth arall o 38pt i 44.

Y farn gyffredinol oedd bod Ponty heb fod ar eu gorau yn ystod wythnosau cyntaf y tymor, ond wedi haeddu eu tair buddugoliaeth i hawlio eu lle ar frig tabl y gynghrair. Mae'r rheolau newydd yn sicr wedi annog timau i chwarae yn ymosodol, i anelu at sgorio ceisiau ar bob cyfle yn hytrach na chicio at y pyst. Yn ôl hyfforddwr Pontypridd Rob Sidoli dyna oedd meddylfryd ei dim eisoes felly does dim newid mawr ar y tactegau.

Os am weld rygbi o safon, gyda llwyth o geisiau yn cael eu sgorio, beth am ddod lawr i gefnogi Pontypridd yn un o'u gemau cartref yn yr enwog 'House of Pain'? Am holl fanylion y gemau i ddod, cymerwch gip ar wefan gynhwysfawr y clwb: www.ponty.net

## Taith adran Gelf a Ffotograffiaeth Ysgol Gyfun Garth Olwg i Lundain (Tudalen 8)